

# Gofalu am rywun sydd wedi cael anesthetig cyffredinol neu dawelydd

Rydw i wedi cael cais i fynd â pherthynas neu ffrind adref ar ôl iddynt gael triniaeth gyda thawelydd neu anesthetig cyffredinol.

## Beth ddylwn i ei ddisgwyl?

Gall y cyffur tawelu neu'r anesthetig wneud rhai cleifion ychydig yn ddryslyd ac yn simsan ar ôl eu triniaeth. Mae'n bwysig nodi y gall effeithio ar eu crebwyll fel na fyddant efallai yn gallu meddwl yn glir. Gall hyn bara am hyd at 24 awr, sef tan y diwrnod wedyn. Gofynnir ichi ofalu amdanynt yn ystod y cyfnod hwn.

## Pryd gaf i gasglu fy ffrind neu berthynas?

Dim ond pan fyddant wedi gwella a phan fyddwch chi yno i fod yn gwmni iddynt y bydd staff yn yr ysbyty yn caniatáu iddynt fynd adref. Rhaid i chi fod dros 18 oed a dylech fynd â nhw adref mewn car neu dacsî - yn ddelfrydol nid ar drafnidiaeth gyhoeddus.

Ni fydd y staff yn gallu rhoi union amser ichi gan fod rhai cleifion yn cymryd mwy o amser nag eraill i wella ar ôl cael tawelydd neu lawdriniaeth.

## A fydd rhywun yn egluro wrthyf beth fydd angen ei wneud?

Bydd y meddygon yn rhoi cyfarwyddiadau ysgrifenedig ynghylch beth i'w wneud ar ôl y driniaeth ac a oes angen cymryd unrhyw feddyginiaethau ychwanegol.

Darllenwch y cyfarwyddiadau hyn gyda'ch perthynas neu ffrind a gwnewch yn siŵr eu bod yn cael eu dilyn.

Bydd rhif ffôn ar gael ichi ei alw os bydd gennych chi neu'r claf unrhyw bryderon am eu triniaeth pan fyddant gartref.

## Beth ddylai fy ffrind neu berthynas ei wneud gartref?

Dylent orffwys er mwyn eu helpu i wella'n ddiogel.

Os ydynt yn simsan, dylent gerdded gyda chi os oes angen ac osgoi grisiau os yn bosibl.

Dylent gymryd eu meddyginiaethau arferol oni bai bod eu meddyg yn dweud wrthynt am beidio.

## Beth na ddylen nhw ei wneud?

Efallai na fyddant yn gallu meddwl yn glir am hyd at 24 awr ar ôl cael anesthetig neu gyffur tawelu. Yn ystod y cyfnod hwn ni ddylent:

- warchod plant neu bobl eraill y maent yn gofalu amdanynt
- gyrru cerbyd neu reidio beic
- coginio neu ddefnyddio unrhyw beiriannau
- gwneud unrhyw benderfyniadau pwysig, hyd yn oed os ydyn nhw'n meddwl eu bod nhw'n teimlo'n iawn
- postio unrhyw beth ar gyfryngau cymdeithasol
- yfed alcohol.

Rydym ni'n ceisio sicrhau bod yr wybodaeth yn y daflen hon yn gywir ac yn gyfoes, ond ni allem warantu hynny. Nid ydym yn disgwyl i'r wybodaeth gyffredinol hon ateb pob cwestiwn sydd gennych, na delio â phopeth sydd o bwys i chi. Dylech drafod eich penderfyniadau ac unrhyw amheuan sydd gennych chi gyda'ch fîm meddygol, gan ddefnyddio'r daflen hon fel canllaw. Ni ddylid ystyried y daflen hon, ar ei phen ei hun, yn gyngor. Ni ellir defnyddio'r daflen hon at unrhyw bwrpas masnachol nac unrhyw bwrpas busnes. I weld yr ymwadiad llawn, cliciwch yma ([www.rcoa.ac.uk/patient-information/translations/welsh](http://www.rcoa.ac.uk/patient-information/translations/welsh)).

Mae pob cyfieithiad yn cael ei darparu gan gymuned cyfieithwyr Translators Without Borders. Mae ansawdd y cyfieithiadau yn cael ei gwirio er mwyn sicrhau bod y cyfieithiadau mor gywir ag sy'n bosibl, ond mae yna risg o anghywirdebau a chamddechongli peth gwybodaeth.

# Dywedwch wrthym beth yw eich barn

Rydym yn croesawu awgrymiadau ar gyfer gwella'r daflen hon.

Os hoffech chi wneud unrhyw sylwadau, e-bostiwch:

[patientinformation@rcoa.ac.uk](mailto:patientinformation@rcoa.ac.uk)

## **Royal College of Anaesthetists (Coleg Brenhinol yr Anesthetyddion)**

Churchill House, 35 Red Lion Square, London WC1R 4SG

020 7092 1500

**[www.rcoa.ac.uk](http://www.rcoa.ac.uk)**

## **Argraffiad Cyntaf 2018**

Bydd y daflen hon yn cael ei hadolygu o fewn tair blynedd o ddyddiad ei chyhoeddi.

### **© 2018 Royal College of Anaesthetists (Coleg Brenhinol yr Anesthetyddion)**

Caniateir copïo'r daflen hon at ddibenion cynhyrchu deunyddiau gwybodaeth i gleifion. Dyfynnwch y ffynhonnell wreiddiol hon. Os ydych am ddefnyddio rhan o'r daflen hon mewn cyhoeddiad arall, rhaid rhoi cydnabyddiaeth addas a thynnu'r logos, y brandio a'r delweddau. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â ni.